CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR: Cofnodion Cyfarfod 1af Chwefror 2023 yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: Cyng., Dewi Gwyn (Cadeirydd), D.Idriswyn Roberts, Selwyn Hughes, Janet Jones, Nia Jones, Llinos Roberts, Robin Williams (CSYM). Clerc: Gillian Morris	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Owain Evans
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 04/01/2023. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir. JJ yn cynnig, DIR yn eilio..
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Bywyd Gwyllt Tîm Natur CCD – popeth wedi ei gosod, wedi cael gwirfoddolwyr i helpu gyda'r gosod a'r plannu. DG yn diolch i bawb a ddaeth i helpu.
4.2	Grant Cymdeithas Elusennol Môn – DG wedi trafod gyda Celyn Menai , wedi derbyn 3 pris ar gyfer y dyfynbris, cais angen ei gyflwyno erbyn 19eg Chwefror 2023.
4.3	Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol - DG yn dosbarthu ffurflenni hyfforddiant ar ôl cael sgwrs gyda John Morris.
4.4	Y Ganolfan - Heulwen yn hapus i dderbyn gwahoddiad ar gyfer magu perthynas rhwng Y Ganolfan a'r cyngor cymuned. JJ am wneud ymholiadau er mwyn gweld opsiynau am brynu gan CSYM.
4.5	Papur Menai – Dim newyddion ar hyn o bryd.
4.6	Sedd wag – Hysbysiad wedi mynd allan ynglŷn ar sedd wag.
4.7	Bagiau baw cŵn DG wedi cyfarfod gyda Wil Stockwell o CSYM, wedi cytuno i 2 x dispenser dal bagiau, 1 x blwch post ac 1x ger Bryn Fynnon. Clerc i gysylltu gyda WS.
5.0	**Materion ariannol**
5.1	Cafwyd diweddariad gan y clerc ar y sefyllfa ariannol. Arian yn y banc, taliad cyflog a thaliad rent Y Ganolfan. Clerc i gysylltu gydag Arwel Evans ynglŷn ag ad-daliad y llwybrau.
5.2	Praesept Trafodwyd y praesept 2023/2024 DIR yn cynnig 12.5% ar yr amod bod cynlluniau pendant ar gyfer y gwariant. Nia Jones yn eilio'r cynnig yma. JJ yn cynnig 6.25%, LlR yn eilio. DG gyda'r bleidlais derfynol ac yn eilio'r cynnig o 6.25%.
6.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
6.1	Pencampwr Iaith DIR yn hapus i gynrychioli Penmynydd a Star.
7.0	**Ceisiadau Cynllunio**

7.1	Hen Dyrpeg Lôn Penmynydd - Dim gwrthwynebiad.
7.2	Garnedd Goch, Star - Pryder am uchder, mynediad ddim o fewn y 30mya ac y ‘soakaway’. DG am yrru llythyr i’r adran cynllunio yn nodi pryderon y trigolion lleol. Dyfed Jones (CSYM) am alw'r mater i mewn i'r pwyllgor.
8.0	**Gohebiaeth Ychwanegol**
	Bara Caws – llythyr yn gofyn am rodd. Fe fydd yn rhaid trafod ymhellach ymlaen yn y flwyddyn.
9.0	**MATERION ERAILL**
9.1	**Elusendai –** Cronfa gwella’r Elusendai, DIR yn rhoi diweddariad eu bod wedi cael llwyddiant gyda chymorth am ddim gan Busnes Cymdeithasol Cymru. Yr ymddiriedolwyr wedi cael cyfarfod ac fe fydd angen cynllun busnes llawn.
10.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dogfen Drafod trefniadaeth y Cyngor
	Enwebu ar gyfer y sedd wag.
Llofnod : Cadeirydd	**Dyddiad : 01/02/2023**